



Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2024/25



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Gweledigaeth ar gyfer 2023/24.....	9
3. Cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.....	11
3.1 Cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.....	11
3.2 Cydymffurfiaeth â'r Safonau Policy Making (Safonau 69-78)	15
3.3 Cydymffurfiaeth â'r Safonau Operational (Safonau 79-114).....	15
3.4 Safonau Record Keeping (Safonau 115-117).....	20
4. Gwybodaeth Bellach	28

Gweledigaeth ar gyfer 2025/26

Gan adeiladu ar ein proses Darganfod ar yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru yn ogystal â'r angerdd o fewn y Bwrdd Iechyd, byddwn yn cyflwyno cynllun Iaith Gymraeg sy'n cefnogi ein huchelgeisiau i ddyrchafu'n hiaith a'n diwylliant ar draws y bwrdd iechyd ac yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli ein staff, cleifion a chymunedau ehangach. Byddwn yn gweithio i gefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar bob lefel o fewn y bwrdd iechyd ac yn ceisio cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn y polisi Sgiliau Dwyieithog, Cymraeg 2050, a Mwy na Geiriau gan ymdrechu'n ddiwyd hefyd i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Llun y clawr: Shan Lewis, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, Ysbyty Llwynhelyg, yn ystod Wythnos y Gymraeg 2025.

1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar y Gymraeg yn canolbwyntio ar y gwaith a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod 2024-25.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ymdrechu i gyflawni ei nodau ar gyfer datblygu a gwella'r Gymraeg. Er gwaethaf pwysau parhaus ar wasanaethau ar draws ein system iechyd a gofal, mae ein staff yn parhau i ddangos eu hymroddiad a'u hymrwymiad i sicrhau bod ein cleifion yn derbyn gofal yn eu dewis iaith a bod gwasanaeth dwyieithog yn cael ei ddarparu lle bynnag y bo modd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Aelod Annibynnol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth tîm Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg, wedi arwain a sicrhau cynnydd pellach yng ngwaith mewnol y bwrdd iechyd, yn ogystal ag adeiladu ar bartneriaethau â sefydliadau eraill i hyrwyddo'r iaith ar draws tair sir y bwrdd iechyd. Fel hyrwyddwyr y Gymraeg, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r aelod annibynnol yn gyfrifol am sicrhau bod y Gymraeg yn cael statws amlwg a bod yr iaith wedi'i phlethu i brosesau gwneud penderfyniadau ar lefel y bwrdd drwyddi draw.

Daeth tymor swydd Delyth Raynsford, yr aelod annibynnol a oedd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg, i ben ddiwedd mis Mawrth 2025. Yn ystod ei chyfnod yn y swydd, roedd Delyth yn gefnogaeth fawr wrth hyrwyddo'r iaith o fewn y bwrdd iechyd - gan annog cydweithwyr i roi cynnig arni - a rhoddodd arweiniad gwerthfawr i dîm Gwasanaethau'r Gymraeg. Diolch, Delyth, am eich cefnogaeth barhaus. O 1 Ebrill 2025, daeth Rhodri Evans yn hyrwyddwr y Gymraeg ar ran y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor Pobl, Sefydliadol, Datblygu a Diwylliant (PODCC) yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch y cynnydd a wneir yn erbyn Safonau'r Iaith Gymraeg, ac yn cynnig cyngor, monitro, a galwadau am dystiolaeth o welliant a wneir gan adrannau unigol o fewn y bwrdd iechyd.

Mae'r Safonau wedi bod yn eitem sefydlog ar yr agenda i'w thrafod i lawer o dimau ar draws y bwrdd iechyd, gyda'r tîm canolog a rheolwyr yn rheolaidd yn cyfleu negeseuon allweddol i staff ynghylch pwysigrwydd cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle. Mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg wedi parhau i hyrwyddo'r Safonau ar draws y bwrdd iechyd gan ddefnyddio amrywiol lwyfannau a chyfryngau gan gynnwys creu deunyddiau newydd a rennir ar-lein a fel arall. Mae staff wedi addasu i gyfathrebu mwy digidol a rhithiol ar ôl y pandemig, ac mae deunyddiau sydd ar gael yn ddigidol wedi parhau i gael eu defnyddio ac maent ar gael i staff eu cyrchu.

Mae Fforwm Swyddogion Iaith Cymru Gyfan, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd ledled Cymru, wedi parhau â'i rôl o gefnogi a datblygu rhaglen o hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Cynrychiolir y bwrdd iechyd yn y grŵp hwn gan Reolwr Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg.

Mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith wedi parhau i gael eu cynnig yn rhithiol, gyda rhai sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu hailgyflwyno'n barhaus. Mae'r sesiynau'n cynnwys sesiynau blasu newydd ar ymwybyddiaeth iaith i staff ledled y bwrdd iechyd, a amlygir hyn yn ystod rhaglen gynefino corfforaethol newydd y bwrdd iechyd i staff newydd. Mae'r sesiynau ymwybyddiaeth hyn yn gyfle i gynghori a thrafod gweithredu'r Safonau, a rhannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael, er mwyn sicrhau bod pob adran yn gweithredu'n ddwyieithog.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd pedwar sesiwn Cwrs Croeso i unigolion – fel agoriad i ddysgu Cymraeg i unigolion sy'n newydd i'r iaith. Fel dilyniant, a chyda chefnogaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflwynwyd cyfres o gyrsgiau iaith 10 awr i staff. Mae'r cyrsiau hyn ar gael i gydweithwyr sydd wedi cwblhau'r Cwrs Croeso ac maent yn darparu cyflwyniad i'r Gymraeg – gan alluogi unigolion i gynnal sgysgiau sylfaenol yn y Gymraeg. Bydd y rhain yn cael eu datblygu a'u hymgorffori ymhellach yn ystod 2025-26.

Mae gallu ymgysylltu â staff yn ystyrion yn golygu y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ymgorffori a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y sefydliad – gan feithrin hyder ein staff fel siaradwyr, dysgwyr a chefnogwyr y Gymraeg. Mae Gwasanaethau'r Gymraeg wedi mynychu nifer o gynadleddau a digwyddiadau'r sector cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf megis EQliP, Cynhadledd Nyrsio flynyddol, digwyddiadau buddsoddwyr mewn gofalwyr, a digwyddiadau gyrfaoedd. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid a hyrwyddo'r iaith a sut y gall unigolion gefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein gweithleoedd, gwasanaethau a chymunedau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg wedi hwyluso darpariaeth y cwrs meithrin hyder, ac wedi ychwanegu at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol drwy ein cyfres Cloncan o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r sesiynau byr hyn yn galluogi cydweithwyr o bob rhan o'r bwrdd iechyd i gysylltu ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol a chroesawgar.

Bu cydweithio parhaus â chydweithwyr yng nghyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i fonitro cynnydd gyda gweithredu'r Safonau ac i drafod gweithredu'r Polisi Sgiliau Dwyieithog. Mae cyfarwyddiaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi chwarae rhan sylweddol wrth sicrhau bod safonau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn cael eu gweithredu. Maent yn parhau i ddiweddarau eu Teclyn Asesu Parodrwydd eu hunain, i sgorio'r Safonau o ran cymhwysedd a chyflawniad. Defnyddiwyd ac addaswyd y cysyniad hwn wrth greu'r Teclyn Asesu Cydymffurfiaeth, a fabwysiadwyd gan bob Cyfarwyddiaeth i fesur cydymffurfiaeth â'r Safonau. Rydym yn parhau i gyfarfod bob deufis i fonitro cynnydd a thrafod cyfleoedd i wella.

Ymgysylltu â'n cymuned

Gan gydnabod ein rôl fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau mawr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, rydym yn parhau i weithio gydag ARFOR (sy'n cefnogi busnesau yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion). Ynghyd â thîm Gweithlu'r Dyfodol y bwrdd iechyd, fe wnaethom fynychu digwyddiadau gyrfaoedd mewn 10 ysgol uwchradd ar draws y siroedd i ymgysylltu â phlant o flynyddoedd 7-12. Trwy sgysiau gyda disgyblion ac athrawon, roeddem yn gallu tynnu sylw at y gwahanol gyfleoedd y mae Hywel Dda yn eu cynnig i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, fe wnaethom gynghori bod Hywel Dda yn annog unigolion i wneud cais am rolau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gallu cefnogi unigolion i gynnal cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sefydlu ein calendr o weithgareddau

Gan adeiladu ar ein calendr o ddigwyddiadau, fe wnaethom barhau i hyrwyddo dathliadau Cymreig gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, a Diwrnod Santes Dwynwen.

Rydym yn parhau i ddefnyddio amrywiol dulliau cyfathrebu a marchnata i gefnogi ein cydweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg, gan gynnwys annog unigolion sy'n newydd i'r Gymraeg i Roi Cynnig Arni. Er enghraifft, i gefnogi Diwrnod Shwmae, rhyddhawyd cyfres o glipliau fideo a sain i annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg, gan alluogi mwy o ymwybyddiaeth o ymadroddion sylfaenol ac ynganiad.

Yn ystod mis Tachwedd 2024, cefnogodd y bwrdd iechyd ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg - menter 'Defnyddia Dy Gymraeg' fel ffordd o annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau beunyddiol. Nod y fenter yw annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, boed yn rhugl ai peidio, er mwyn sefydlu'r iaith fel rhan naturiol o'u bywydau bob dydd. Rhedodd yr ymgyrch o 25 Tachwedd tan 9 Rhagfyr 2024. Gweithiodd ein tîm Gwasanaethau'r Gymraeg mewn partneriaeth â Gwasanaethau Gofal Sylfaenol eto eleni i gynnal wythnos 'Defnyddia dy Gymraeg' ar gyfer staff gofal sylfaenol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth iaith rhithiol, a chyfle i staff gofal sylfaenol, gan gynnwys contractwyr annibynnol, ymuno â sesiynau blasu i feithrin hyder yn y Gymraeg.

I nodi Diwrnod Santes Dwynwen ar 25 Ionawr 2025, crëwyd fideos i ddathlu'r diwrnod gyda staff o ysbyty Glangwili yn cymryd rhan trwy ddweud gair maen nhw'n ei gysylltu â chariad. Rhannwyd hyn o fewn y bwrdd iechyd, gan ddefnyddio Viva Engage, fel platfform ar gyfer ymgysylltu â staff. Roedd cysylltu â'r fideo yn hyrwyddiad i annog cydweithwyr i fanteisio ar y cyfleoedd amrywiol i ddysgu Cymraeg o fewn Hywel Dda.

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni, defnyddiodd tîm Gwasanaethau'r Gymraeg y cyfle i gynnal 'Wythnos y Gymraeg' a oedd yn canolbwyntio ar wneud pethau bach i dynnu sylw at ddiwylliant Cymru. Gan chwilio am ffyrdd eraill o gynyddu gwelededd yr iaith ac ymadroddion allweddol, datblygwyd posteri a'u rhannu ar ddrysau ystafelloedd ymolchi mewn nifer o leoliadau ar draws y bwrdd iechyd.

Gweithiodd y tîm gyda'r tîm Cyfathrebu i sicrhau bod Dydd Gŵyl Dewi yn cael ei ddathlu ar y cyfryngau cymdeithasol gyda phostiadau'n cynnwys dyfyniadau gan staff yn nodi pam mae'r Gymraeg yn bwysig iddyn nhw yn y gweithle, a gafodd gyrhaeddiad ac ymgysylltiad sylweddol gyda'r cyhoedd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd.



Dosbarthwyd cennin Pedr i staff yn Ysbyty Glangwili yn y cyfnod cyn Dydd Gŵyl Dewi a chrëwyd [fideo](#) a rannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Defnyddiwyd Viva Engage i dynnu sylw at y gwasanaethau cyfieithu ac i atgoffa staff o'u dyletswydd o dan y safonau o gyflenwi llythyrau, posteri, e-byst a mwy yn ddwyieithog.

Fe wnaethom hefyd fanteisio ar yr wythnos hon fel cyfle i gynnal eisteddfod gyntaf y bwrdd iechyd i staff a'u teuluoedd, i godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ymhlith cydweithwyr a thimau. Yn garedig iawn, rhoddodd busnesau lleol wobrau i'r enillwyr. Roedd 10 categori a oedd yn amrywio o ffotograffiaeth i farddoniaeth, ac yn cynnwys gweithgareddau tîm fel addurno ward.

Dyma'r categorïau a'r enillwyr:

Categori	Enillydd	Gwobr gan
Ffotograffiaeth (plentyn)	Harlyn Tooby	Siop y Pentan
Ffotograffiaeth (oedolyn)	Diana Green	Bluestone
Gwaith celf (plentyn)	Elsa Burson	Siop y Pentan
Gwaith celf (oedolyn)	Tricia Rees	Rheilffordd Cwm Rheidol
Canu	Gwilym Scourfield	Cawdor, Llandeilo
Dawnsio	Megan Evans	Folly Farm
Barddoniaeth	Mel Storey	Aberglasney
Cerdd Acostig	Meinir Morris	Y Scarlets
Siarad (i ddysgwyr)	Laura Hiscox	Ani Bendod
Addurno Ward	Ward Angharad, Bronglais	Castell Howell



Eisteddfod Hywel Dda

Migration to resilience

It was 1972, a life so blissful, impossible to leave,
Until Amin came to power, chasing a dream.
"All Asians must leave in 90 days," he decreed.
Leave the country of our birth? Our home?
The place where we belonged?

We were the backbone of the economy,
Yet harassed, intimidated, faces filled with fear.
What will happen to us? So many questions, no answers.
"Take your suitcases and airfare, nothing more," he ordered.

When your home is on fire, what do you take?
Leave the houses, farms, businesses, and cars.
These now belong to Uganda, he declared.
The soldiers banged on doors,
Guns waving, voices shouting demands.

On the way to the airport, they took all we had
Money, jewellery, dignity—stripped away,
Women assaulted by their cruelty, hearts heavy with despair,
We boarded flights to nowhere,
Uncertain of what lay ahead.

Winter greeted us with biting winds,
Housed in empty military camps,
A far cry from the warmth we had known.
At least we were together—
British in Britain, though strangers in this new land.

Unaccustomed to charity, we wore donated clothes,
Clinging to whatever shred of pride remained.
But we found cheer in simply being alive.
That was over 50 years ago, and somehow,
The human spirit recovered.

We started over with nothing,
Grit and determination our only currency,
The entrepreneurial spirit, though trampled,
Bubbled up again, refusing to be silenced.
"We can deal with this," we told ourselves,
Not quite believing, but trying all the same.

It's been hard to speak of those dark days,
The fear, the loss, the trauma, the injustice.
But today, the memories come alive,
Stories passed down, captured forever,
And yes, it's good to talk.

Wales opened its arms,
Welcoming us with its rugged coasts,
Snow-capped mountains, and castles steeped in history.
Cool Cardiff, stunning Swansea beaches and winding coastal paths.
This land embraced us, it's people too,
And now, it is ours too and we love you back.

Our Wales, our home,
Where resilience took root,
Where the pain of the past turned into the promise of tomorrow.
We belong here,
Hukanna matata
By Nghymu
Rwy'n perthyn yma
From migration to resilience,
Our story continues.

Welsh Poetry
© Mel Storey

Mel Storey



Yn ogystal â'r gwobrau a ddyfarnwyd i staff a gystadlodd yn y gwahanol categorïau yn yr eisteddfod, dyfarnwyd tocynnau i Ffair Wanwyn Frenhinol Cymru i Ellen Masters hefyd am fod yn Ddysgwr y Flwyddyn eleni. Mae Ellen wedi bod yn hunan-ddysgu ers blynyddoedd ac yn ddiweddar mae wedi ymuno â'r Cwrs Codi Hyder. Gwobrwyd Ellen gan Richard Jones, y tiwtor, am ei hymroddiad i ddysgu ond hefyd am fod yn benderfynol o roi'r hyn y mae wedi'i ddysgu ar waith yn ei gweithle trwy ddefnyddio'r Gymraeg mewn e-byst a galwadau ffôn.

Yn ogystal, ac i hyrwyddo Dydd Gwyl Dewi, dosbarthwyd cennin Pedr i staff ar draws y safle aciwt i ddathlu popeth sy'n ymwneud â Chymraeg ac atgoffa ac annog pawb i fyw gwerthoedd Dewi Sant a "gwnewch y pethau bychain".

Nod cyffredinol rhaglen weithgareddau Dydd Gŵyl Dewi a barodd wythnos oedd codi ymwybyddiaeth o'r amrywiol gyfleoedd sydd ar gael i staff yn y gweithle, dathlu ein

hanes a'n diwylliant, tra hefyd yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaeth i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael i'n poblogaeth sy'n siarad Cymraeg.

Yn dilyn llwyddiant y cydweithrediad rhwng tîm Gwasanaethau'r Gymraeg y bwrdd iechyd ag Academi Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, parhaodd y timau i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith ym mis Mehefin a mis Tachwedd.

Sefydlwyd yr Academi ym mis Mawrth 2023 i ddatblygu a chefnogi gweithlu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol amlbroffesiynol y bwrdd iechyd i gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion, drwy:

- Mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant, gan gynnwys cyfleoedd dysgu rhyngbroffesiynol.
- Rhaglenni cynllunio, datblygu a chynaliadwyedd y gweithlu.
- Cyfleoedd lleoli a gwaith gyda'r nod o gynyddu nifer ac ystod yr hyfforddwyr, mentoriaid a goruchwylwyr.
- Rhaglenni 'Newydd i Ofal Sylfaenol' sy'n helpu i sefydlu, cefnogi a chadw staff.
- Adnoddau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, gan weithio gyda'r tîm Gwasanaethau'r Gymraeg.

Fel rhan o gam cyntaf datblygiad yr Academi, cynhaliwyd arolwg anghenion hyfforddi, addysg a dysgu yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Roedd yr arolwg ar agor i bawb sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol - clinigol ac anghlinigol, gweinyddol a rheoli. Un o'r themâu allweddol o'r arolwg oedd yr angen am gefnogaeth iaith Gymraeg o ran cyfleoedd dysgu Cymraeg a chefnogaeth i ddeall y rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth Cymru. Felly, mae cefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn un o'n blaenoriaethau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Academi Gofal Sylfaenol, ynghyd â chefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau'r Gymraeg, wedi datblygu rhaglen i gefnogi staff y bwrdd iechyd sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol a gweithlu contractwyr annibynnol gofal sylfaenol i ddefnyddio, datblygu neu ddysgu sgiliau iaith Gymraeg.

Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym wedi creu pecynnau adnoddau gyda syniadau ymarferol a gwybodaeth am adnoddau hyfforddi a dysgu i gefnogi staff a gweithlu contractwyr annibynnol gofal sylfaenol i gydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pecynnau hyn yn cael eu diweddarau'n barhaus i sicrhau eu bod yn addas at y diben gyda'r holl wybodaeth ddiweddaraf am Safonau a Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg a chysiau sydd ar gael i staff.

[Safonau'r Iaith Gymraeg](#): pecyn adnoddau ar gyfer staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg, i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg).

[Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg](#): pecyn adnoddau ar gyfer contractwyr annibynnol gofal sylfaenol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, i gefnogi cydymffurfiaeth â Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg (ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg).

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynwyd cynllun pum mlynedd ar sut mae'r sefydliad yn symud ymlaen tuag at gyflawni Safon 110 - y safon ofynnol o ran gallu cynnig ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg - i Brif Swyddogion y Gwasanaeth Iechyd (PODCC). Nod y cynllun yw sicrhau bod cleifion yn teimlo'n fwy cyfforddus yn trafod eu materion iechyd yn eu hiaith o angen, gan wella cyfathrebu a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion. Efallai na fydd arferion presennol yn darparu'n llwyr ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, ac efallai y bydd angen hyfforddi staff ac adolygu adnoddau a gweithdrefnau presennol.

Mewn trafodaeth â thimau sy'n dod o fewn saith grŵp blaenoriaeth Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau, mae'r gwaith wedi dechrau o fewn gwasanaeth unigol i ddechrau - gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd. Datblygwyd y cynllun cychwynol fel y gellir ei drosglwyddo'n hawdd i wasanaethau eraill, ar ôl ei dreialu a'i brofi. Mae'n ddogfen weithio ac mae'n destun newid wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn ystod 2025-26.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r 6 maes gwaith canlynol:

- **Asesiad sylfaenol o'r sefyllfa bresennol**
Archwiliad sylfaenol o sgiliau iaith Gymraeg staff; ffurflenni, llythyrau a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog
- **Hyfforddiant a Datblygu**
Gweithredu cynllun hyfforddi iaith Gymraeg cynhwysfawr ar gyfer staff ar bob lefel i wella eu sgiliau iaith Gymraeg gan ganolbwyntio ar sgiliau cyfathrebu sy'n hanfodol ar gyfer rhyngweithio effeithiol â chleifion ar bob lefel.
- **Recriwtio a Chadw Staff**
Cynyddu recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, gyda phwyslais ar egluro lefel y sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd.
- **Adnoddau iaith Gymraeg**
Darparu a/neu ddatblygu adnoddau iaith Gymraeg o eirfa asesiadau, er mwyn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Cleifion**
Codi ymwybyddiaeth ymhlith cleifion sy'n siarad Cymraeg am eu hawl i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- **Monitro a Gwerthuso**
Sefydlu mecanweithiau ar gyfer monitro gweithrediad y cynllun, gan sicrhau bod gwasanaethau iaith Gymraeg yn cael eu darparu'n effeithiol a bod boddhad cleifion yn cael ei asesu'n rheolaidd.

Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Er gwaethaf yr heriau gweithredol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu parhau i weld adfywiad yng ngweithgareddau'r bwrdd iechyd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n diwylliant o fewn y bwrdd iechyd a'n cymuned ehangach. Mae hyn yn darparu llwyfan cadarn i ni ar gyfer 2025-26. Bydd y gwaith hunanasesu a wnawn i asesu ble mae'r sefydliad yn erbyn ei ofynion cyfreithiol yn parhau drwy gydol y flwyddyn wrth i ni geisio cynnal gwasanaeth dwyieithog i'n poblogaeth.

2. Gweledigaeth ar gyfer 2025/26

Mae gan y bwrdd iechyd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, sy'n cysylltu â nifer o flaenoriaethau'r bwrdd iechyd ar gyfer 2025-36. Bydd ffocws ar adeiladu ar y broses ddarganfod a gwblhawyd yn 2023 i ddeall anghenion a dyheadau ein cymunedau o ran yr iaith a diwylliant Cymru – staff, cleifion, darparwyr gwasanaethau a chefnogwyr. Mae'r cynllun dilynol yn adlewyrchu ein canfyddiadau ac yn cyflawni blaenoriaethau'r bwrdd.

Gan adeiladu ar ein proses Darganfod ar yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru a'r angerdd o fewn y Bwrdd Iechyd, byddwn yn cyflawni cynllun yr Iaith Gymraeg sy'n cefnogi ein huchelgeisiau i wella ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg ar draws y bwrdd iechyd ac yn ymgysylltu ac yn ysbrydoli ein staff, cleifion a chymunedau ehangach. Byddwn yn gweithio i gefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar bob lefel o fewn y bwrdd iechyd ac yn ceisio cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn y polisi Sgiliau Dwyieithog, Cymraeg 2050, a Mwy na Geiriau wrth ymdrechu hefyd i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Byddwn yn parhau i wneud hyn ar y cyd â'r meysydd gwasanaeth yn ystod blwyddyn adrodd 2025/26:

- Cyflawni Safonau'r Iaith Gymraeg ar draws y sefydliad
- Cynllunio'r gweithlu drwy weithredu'r Polisi Sgiliau Dwyieithog ac yng ngoleuni data Cyfrifiad 2021
- Parhau i weithredu Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau, a lanswyd yn haf 2022
- Parhau i ddatblygu a chryfhau gwasanaethau Cymraeg o fewn Gofal Sylfaenol yn unol â'i chynllun gweithredu a'i Academi
- Parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr i'r sefydliad cyfan
- Parhau i hunanasesu ein darpariaeth yn erbyn Safonau statudol yr iaith drwy weithredu'r argymhellion yn ein hymarfer siopwr cudd
- Cyflawni a datblygu cynllun Safon 110 ar gyfer galluogi ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r mentrau hyn yn tynnu ar y blaenoriaethau yn ein cynllun blynyddol, gan roi sicrwydd bod y bwrdd iechyd yn cofleidio ei ofynion deddfwriaethol, ac yn anelu at

fynd y tu hwnt i ofynion statudol wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog a gwella a chofleidio diwylliant Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd nodau iaith Gymraeg a diwylliant Cymru'r bwrdd iechyd yn cael eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, wrth i'r sefydliad ddelio â phwysau ariannol a gweithredol, efallai y bydd angen addasu'r blaenoriaethau hyn wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae staff yn parhau i ddangos ymroddiad ac ymrwymiad i sicrhau bod ein cleifion yn derbyn gofal yn eu dewis iaith a bod gwasanaeth dwyieithog yn cael ei ddarparu. Rydym yn hyderus y bydd ein hymrwymiad a'n ffocws ar yr iaith Gymraeg yn darparu amgylchedd llewyrchus ar gyfer yr iaith a diwylliant Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac edrychwn ymlaen at rannu ein cynnydd y flwyddyn nesaf.

3. Cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno rhagor o wybodaeth am waith y bwrdd iechyd wedi'i grwpio yn ôl Safon/au perthnasol.

3.1 Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- **Gohebiaeth ysgrifenedig** (Safonau 1 – 7)
- **Cyfarchion ffôn** (Safonau 8 – 20)
- **Cyfarfodydd a digwyddiadau** (Safonau 21 – 33)
- **Cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau** (Safonau 34 – 38)
- **Gwefan, cyfryngau cymdeithasol, apiau** (Safonau 39 – 46)
- **Arwyddion** (Safonau 47- 49)
- **Gwasanaethau derbynfya** (Safonau 50 – 53)
- **Contractau** (Safonau 57 – 59)
- **Cyfathrebu a hunaniaeth gorfforaethol** (Safonau 60 – 62)
- **Cyrsiau a gynigir gan y bwrdd iechyd** (Safonau 63)
- **Systemau annerch cyhoeddus** – (Safon 64)
- **Gofal Sylfaenol** (Safonau 65-68)

Mae nifer o ganllawiau'r bwrdd iechyd wedi'u hadolygu ac yn parhau i gael eu hyrwyddo'n eang i staff, gan ddefnyddio Viva Engage, cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd tîm staff, ymweliadau wyneb yn wyneb â safleoedd aciwt a chymunedol a defnyddio ein hyrwyddwyr iaith Gymraeg er mwyn tynnu sylw at ofynion cydymffurfio â'r Safonau. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnrwyd fel y gall yr holl staff eu cyrchu'n rhwydd. Caiff rheolwyr eu hysbysu'n aml am y canllawiau sydd ar gael a gofynnir iddynt gynghori eu timau i ymgyswngu â'r wybodaeth. Cyfeirir pob aelod newydd o staff at y canllawiau yn ystod eu cyfnod cynefino yn y bwrdd iechyd.

Mae'r canllawiau'n cynnwys:

- protocol ar gyfer ateb y ffôn yn ddwyieithog
- canllaw ar gyfer derbynnyddion
- defnyddio'r Gymraeg mewn gohebiaeth
- trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd
- ysgrifennu yn Gymraeg – ymadroddion defnyddiol
- templedi – arwyddion, ffurflenni ac ati
- rheolau ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol

Mae'r bwrdd iechyd wedi defnyddio dull cyson o ran defnyddio papur pennawd a llofnodion e-bost ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff ddefnyddio papur pennawd dwyieithog y bwrdd iechyd. Mae hyn yn sicrhau bod neges gyson, ddwyieithog ar bob llythyr. Rydym hefyd wedi annog pob aelod o staff i gynnwys baner ar lofnodion e-bost yn nodi bod yr unigolyn yn 'croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg'. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu gan lawer ar draws y bwrdd iechyd, gan annog gohebiaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn.

Rydym yn falch bod pob llwyfan cyfathrebu fel cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg, a gwybodaeth gwefannau bob amser yn cael blaenoriaeth ac ar gael yn ddwyieithog. Mae'r holl waith cyfathrebu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i sicrhau bod gan y cyhoedd a chleifion fynediad at wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhyrchir yr holl arwyddion a thafleuni gwybodaeth yn ddwyieithog hyd eithaf ein gwybodaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae prosiect Argraffu a Phostio Hybrid y bwrdd iechyd wedi dechrau cynnig llythyrau apwyntiad i gleifion mewn porth ar-lein. Fel rhan o'r datblygiad hwn, mae'n galluogi cleifion i ddewis sut yr hoffent dderbyn gohebiaeth gan y bwrdd iechyd a gwneud hynny naill ai ar bapur neu ar ffurf ddigidol. Mae hyn yn galluogi cleifion rhai gwasanaethau i nodi eu dewis ac, os ydynt yn dewis gwneud hynny, derbyn eu holl ohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i hyrwyddo ei wasanaethau Cymraeg trwy arddangos posteri, defnyddio sgriniau digidol mewn safleoedd ysbytai, a baner a ddangosir ar hafan y fewnwyd yn cyfeirio staff at wybodaeth am y Safonau. Rhennir nifer o negeseuon ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol mewnol ar gyfer staff, yn enwedig Viva Engage, gan dynnu sylw at sut mae angen i ni gydymffurfio â'r safonau a chyfeirio at feysydd cymorth pellach sydd ar gael.


 **Ceinwen Lloyd (Hywel Dda UHB - Welsh Language Suppor...**
Mar 25
Seen by 227

Do you know your duty when it comes to the Welsh language standards?

Cyfieithu Ar y Pryd (CAP)
Simultaneous translation

You must ensure that your application forms for posts provide a space for applicants to indicate that they wish an interview or other method of assessment in Welsh and if an applicant so wishes, you must conduct any interview or other method of assessment in Welsh, or, if necessary, provide a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English for that pur... see more



 <http://hduhb.nhs.wales/healthcare/services-and-teams/welsh-language-services/welsh-language-documents/welsh-language-compliance-notice/>


 **Ceinwen Lloyd (Hywel Dda UHB - Welsh Language Suppor...**
Mar 18
Seen by 1,974

Do you know the Welsh language standards?

Cyfieithu Ar y Pryd (CAP)
Simultaneous translation

If you have invited more than one person to a meeting, and at least 10% (but less than 100%) of the persons invited have informed you that they wish to use the Welsh language at the meeting, you must arrange for a simultaneous or consecutive translation service from Welsh to English to be available at the meeting

Find all of the standards here: hduhb.nhs.wales/healthcare/services-and-teams/welsh-language-services/welsh-language-documents/welsh-language-compliance-notice/



COMPLIANCE NOTICE SECTION 44 WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011
Hywel Dda University Health Board Issue Date: 30/11/2018

COMPLIANCE NOTICE – SECTION 44 WELSH LANGUAGE (WALES) MEASURE 2011 Hywel Dda University Health Board – Issue Date: 30/11/2018 Standard Number Class of Standard Standard Imposition Day 1 Service Delivery standards If you receive correspondence from a person in Welsh you must reply in
hduhb.nhs.wales

Anfonir e-bost atgoffa chwarterol hefyd, gan gyrraedd dros 12,000 o staff, gan atgoffa pawb o ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg. Weithiau mae hyn yn canolbwyntio ar agwedd benodol o'r Safonau os oes angen mwy o sylw ar agwedd benodol, a theimlir bod angen atgoffa'r holl staff o sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Hyrwyddo'r Gymraeg i'n staff

Fel rhan o'r dull marchnata i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg o fewn y bwrdd iechyd, mae'r tîm wedi cynhyrchu ei ymgyrch Rhoi Cynnig Arni. Mae'r ymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o nwyddau sy'n rhannu ymadroddion defnyddiol yn y Gymraeg – wedi'u harddangos ar bosteri, ysgrifbinau, cardiau fflach, arwyddion bwrdd, cymhorthion desg a chylchoedd allweddi cardiau fflach. Mae'r rhain yn gweithredu fel modd o annog a chefnogi staff i geisio defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd – gyda'i gilydd a chydai'n cleifion. Mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg hefyd wedi dylunio a chreu llinynnau gwddf newydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg a llinynnau gwddf ar gyfer dysgwyr y Gymraeg. Mae'r llinynnau gwddf hyn yn cynnwys logo'r bwrdd iechyd a logo Cymraeg Gwaith. Pwrpas y llinynnau gwddf hyn yw y gall cleifion a staff adnabod yn gyflym gyda phwy y gallant ddefnyddio eu Cymraeg.



Mae'r llinynnau gwddf hyn yn ychwanegu at yr ystod o nwyddau Rhoi Gynnig Arni sy'n gwasanaethu fel atgof gweladwy i staff a chleifion i ddefnyddio eu Cymraeg.

- Fel y gall staff fod yn ymwybodol o ddewis iaith cydweithwyr.
- Fel y gall cleifion i ddefnyddio eu hiaith gysurus o'r pwynt cyswllt cyntaf.


Y galw am wasanaethau cyfieithu

Bu gostyngiad yng nghyfanswm y geiriau a gyflwynwyd i'w cyfieithu yn 2024-25. Gallai pwysau staffio ac ariannol ar draws y bwrdd iechyd olygu nad oes gan adrannau'r gallu i greu deunyddiau newydd, gan arwain at ostyngiad mewn cyfieithu.

Mae Gwasanaethau'r Gymraeg wedi gweithio gydag adrannau penodol yn y blynyddoedd blaenorol i archwilio eu ffeiliau cyfredol gan arwain at gynnydd mewn cyfieithu wrth i adrannau weithio i ddal i fyny â sicrhau bod deunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Yn 2025-26 mae'r tîm yn anelu at weithio gyda Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod eu tudalennau Mewnwyd a SharePoint yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn, yn ogystal â gweithgareddau ymgynghori fel Uned Mân Anafiadau Llanelli a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, lle cynhyrchir nifer o

ddogfennau cyhoeddus, yn golygu y bydd y gofynion cyfieithu yn unol â blynyddoedd blaenorol yn ystod 2025/26.

Anfonir e-bost atgoffa at holl staff y bwrdd iechyd bob chwarter i'w atgoffa bod gwasanaeth cyfieithu ar gael a bod yr holl ddeunydd i'w gynhyrchu'n ddwyieithog. Hyrwyddir y gwasanaeth cyfieithu hefyd yn y Sesiynau Blasu ac mae'n ymddangos bod y tîm gwasanaeth cyfieithu yn derbyn llif o waith yn dilyn y sesiynau. Yn ddiweddar, mae'r tîm Gwasanaethau Cyfieithu wedi archwilio amrywiol adrannau fel Radioleg a Mamolaeth i sicrhau bod yr holl lenyddiaeth ar gael yn ddwyieithog. Y bwriad yw datblygu'r prosiect hwn a gweithio gydag adrannau eraill i sicrhau cydymffurfiaeth o ran llenyddiaeth fel llythyrau cleifion a thafleuni gwybodaeth i gleifion.



Fel rhan o'r gwaith parhaus gyda'r Academi Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y darparwyr Gofal Sylfaenol, meddygfeydd yn benodol, sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cyfieithu i gael cyfieithiadau o arwyddion, hysbysiadau a gwefannau. Mae gan Ddarparwyr Gofal Sylfaenol fynediad at ffurflen archebu Gwasanaethau'r Gymraeg ac fe'u hanogir gan yr Academi Gofal Sylfaenol i ofyn am ddeunyddiau dysgu a nwyddau Rho Gynnig Arni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd a digwyddiadau wedi parhau i ddigwydd yn rhithiol trwy MS Teams. Mae canllawiau ar sut i gynnal cyfarfodydd dwyieithog, gofynion y Safonau, a thafleuni ymadroddion defnyddiol cyfarfodydd ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd i'r holl staff eu cyrchu.

Mae cymhwysedd gorfodol Ymwybyddiaeth Iaith Newydd ar gyfer Cymru gyfan wedi'i aseiniu i holl staff y bwrdd iechyd, ac mae modiwl e-ddysgu ar gael i'w gwblhau. Mae'r cwrs ar gael trwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR) ac mae'n orfodol i holl staff y GIG (gan gynnwys staff sydd â phrin gysylltiad uniongyrchol neu ddim cysylltiad uniongyrchol â chleifion / defnyddwyr gwasanaeth). Bydd angen ail-gymryd y cwrs bob tair blynedd. Nod yr hyfforddiant yw gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau dwyieithog, fel angen yn ogystal â gofyniad cyfreithiol, ac mae'n rhannu profiad cleifion a pham ei fod yn bwysig iddynt.

Rydym am sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, ac elfen hanfodol i hynny yw meithrin y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol o pam mae angen i ni wneud hynny a sut y gellir cefnogi staff. Mae ein Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i gefnogi ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac rydym yn falch o'r cynnydd a wnaethom hyd yn hyn wrth adeiladu sefydliad dwyieithog, y bydd yr hyfforddiant byr hwn yn rhan fawr ohono. Lanswyd y cwrs ym mis Ionawr 2023 ac ar 31 Mawrth 2025 roedd 86% o weithlu'r bwrdd iechyd wedi cwblhau'r cwrs. Gwneir gwaith pellach i hyrwyddo ac atgoffa unigolion o'r angen i gwblhau'r cwrs a sicrhau cydymffurfiaeth.

3.2 Cydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisi (Safonau 69-78)

Mae pob polisi a menter newydd a gynhyrchir gan y bwrdd iechyd yn destun Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cynnwys asesiad effaith ar iaith. Mae hwn yn gyfle i asesu'r iaith Gymraeg yn benodol, lle byddai'r polisi'n dylanwadu ar ddefnyddio'r iaith fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau'r sefydliad. Mae'r iaith Gymraeg wedi'i hymgorffori yn y prosesau gwneud penderfyniadau ac yn cael ei hystyried yn ein holl waith.

Adolygwyd Dogfen Rheoli Ysgrifenedig y bwrdd iechyd ar Bolisi, yn ogystal â'r ffurflen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Mehefin 2021. Mae mwy o feini prawf yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys gyda'r bwriad o sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau a diwygiadau polisi.

3.3 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu (Safonau 79-114)

- **Gweinyddiaeth Fewnol** (Safonau 79 – 82)
- **Cwynion** (Safonau 83 – 85)
- **Achosion Disgyblu** (Safonau 86 – 88)
- **Technoleg Gwybodaeth a'r Ap Staff Corfforaethol** (Safonau 89 – 95)
- **Datblygu Sgiliau Iaith Gymraeg** (Safonau 96 – 105)
- **Recriwtio a phenodi** (Safonau 106 – 109)
- **Ymgynghoriadau Clinigol** (Safonau 110-110A)
- **Arwyddion a hysbysiadau yn y gweithle** (Safonau 111 – 113)

Defnydd mewnol

Mae tudalennau dynodedig ar fewnwyd y bwrdd iechyd yn darparu canllawiau a chymorth ar sut y gall staff ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewnol o fewn y bwrdd iechyd. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am y tîm Gwasanaethau'r Gymraeg, cymorth cyfieithu, a Safonau'r Iaith Gymraeg, mae'r wybodaeth yn annog staff i ddysgu sut mae'r bwrdd iechyd yn eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd gwaith.

Yn ystod 2024/25, mae'r bwrdd iechyd wedi parhau i hyrwyddo'n weithredol yr adnoddau ar-lein sy'n helpu ein staff i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Yn dilyn symudiad i weithio mwy digidol, mae ein Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg wedi cynhyrchu amrywiol daflenni gwybodaeth, taflenni ymadroddion defnyddiol ac wedi datblygu ymhellach y tudalennau 'dysgu Cymraeg' ar fewnwyd y bwrdd iechyd. Mae'r pecyn gwirio sillafu, Cysgliad, ar gael ar bob gliniadur a chyfrifiadur personol ac anogir staff i ddefnyddio'r offeryn hwn lle bynnag y bo modd.

Mae nifer o dempledi, sy'n helpu staff mewn sawl maes gan gynnwys ymateb i ymholiadau e-bost cyfrwng Cymraeg, cadw cofnodion dwyieithog, a threfnu cyfarfodydd dwyieithog, hefyd yn boblogaidd. Gobeithiwn y bydd y rhain yn annog staff i geisio cynhyrchu eu negeseuon e-bost dwyieithog eu hunain yn lle anfon e-bost ar unwaith i'w gyfieithu. Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu hyrwyddo mewn cylchlythyrau i staff ac ar negeseuon e-bost staff Byd-eang, ond mae cyfleoedd pellach i sicrhau ymgysylltiad a defnydd ehangach.

Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth staff, yn ogystal â dogfennaeth fel amcanion perfformiad a dogfennau cynllun gyrfa, ar gael yn ddwyieithog. Mae polisïau Cymru gyfan fel Ymddygiad yn y Gweithle, Absenoldeb o'r Gwaith, ac Iechyd a Llesiant yn y Gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac fe'u cyhoeddir ar-lein. O ganlyniad i'r ymgyrchoedd mewnol gan Gwasanaethau'r Gymraeg, mae gan staff ymwybyddiaeth gynyddol o'u hawliau i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg, fel gweithdrefnau cwyno, dogfennaeth neu gyfarfodydd sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblu, ac unrhyw ohebiaeth gyffredinol. Mae gweithdrefnau cwyno hefyd wedi'u haddasu; mae'r polisïau ar gyfer Codi Pryderon, Urddas yn y Gwaith, Cwynion a Disgyblu bellach yn cynnwys darpariaeth o fewn y Polisi i staff gael gwybod am eu hawliau i wneud cwyn yn y Gymraeg neu ymateb i gŵyn a wneir amdanynt yn y Gymraeg. Yn ystod y broses recriwtio, cynigir cyfweiliad i unigolion yn weithredol yn eu hiaith ddewisol a gwneir trefniadau yn unol â hynny. Ar achlysuron lle nad yw rheolwyr recriwtio sy'n siarad Cymraeg ar gael, trefnir cyfieithu ar y pryd fel dull amgen.

Adolygir yr holl ddogfennau'n flynyddol i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.

Cynyddu sgiliau iaith Gymraeg ein staff

Mae sgiliau iaith pob aelod o staff yn cael eu cofnodi ar ESR (Cofnod Staff Electronig). Gofynnir i staff drafod cyfleoedd dysgu Cymraeg yn ystod eu cyfarfodydd

Adolygiad Datblygu Gwerthuso Perfformiad (PADR) blynyddol, a nodir hyn ar eu cofnod cyflogai. Os nodir dymuniad, neu angen, i ddysgu neu wella sgiliau Cymraeg unigolyn ar eu PADR, mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg yn cefnogi ac yn nodi cwrs addas ar gyfer yr unigolyn. Hysbysebwr cyrsiau iaith Gymraeg yn eang ar draws y bwrdd iechyd a rhoddir blaenoriaeth i leoedd ar gyrsiau ar gyfer staff sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion. Hysbysebwr pob cwrs ar y dudalen Dysgu Cymraeg newydd ei datblygu ar y fewnwyd, tudalen Facebook staff ac yn yr e-bost Byd-eang a anfonir at holl staff y bwrdd iechyd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o'r archwiliad sgiliau iaith ar gael ar dudalen 22.

Mae darparwyr cyrsiau iaith Gymraeg wedi addasu eu ffordd o gyflwyno hyfforddiant ers y pandemig. Bellach cynigir dysgu wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn ogystal â dysgu rhithiol ar-lein. Mae dysgu ar-lein wedi profi i fod yn ddull poblogaidd o ddysgu gyda staff y bwrdd iechyd gan ei fod yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt, yn enwedig heb orfod gadael y gweithle i fynychu dosbarth. Mae llawer o gyrsiau a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig opsiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein, sy'n golygu bod ein staff yn fwy tebygol o allu ymuno yn dibynnu ar eu hamgylchiadau gweithle. Mae'n well gan y rhan fwyaf o staff ddysgu rhithiol ar-lein gan fod yr opsiwn hwn yn tueddu i fod yn fwy hyblyg gan ganiatáu i'r staff aros ar y safle a mynychu'n fwy hyblyg yn ystod eu hamserlenni gwaith prysur.

Ers dechrau 2023, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i barhau i ddarparu'r Cwrs Codi Hyder i'n staff. Mae'r Swyddog Codi Hyder, Richard Jones, yn parhau i weithio fel rhan o gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan ac yn darparu cyfres o gyrsiau codi hyder byr i staff. Nod y cynllun Cymraeg Gwaith yw cynorthwyo cyflogwyr i uwchsgilio'r gweithlu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Mae'r Swyddog Codi Hyder llawn amser yn cael ei gyflogi gan un o ddarparwyr Dysgu Cymraeg, sef Prifysgol Aberystwyth, ac mae wedi bod yn gweithio gyda ni am y ddwy flynedd ddiwethaf. Nod y cynllun yw cynnig cyrsiau codi hyder byr a gweithio gydag unigolion i newid y defnydd a wnânt o'r Gymraeg gyda chleifion. Roedd y gyfres o gyrsiau Codi Hyder ar agor i holl staff y bwrdd iechyd yn ogystal â thargedu grwpiau penodol o staff fel Derbynyddion, Prentisiaid a Nyrsys - staff sydd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion.

Pwrpas y cyrsiau codi hyder yw newid arferion ieithyddol a gwella hyder, fel bod staff yn fwy tebygol o ddefnyddio eu Cymraeg i gyfathrebu ag eraill a chwblhau tasgau yn y gweithle drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig cyfle unigryw i ymarfer pob elfen o'r iaith Gymraeg – siarad, darllen, gwrando ac ysgrifennu, ond gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu hyder i siarad yr iaith.

Rydym yn hynod falch o allu adrodd yn ôl ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cyrsiau codi hyder wedi bod yn boblogaidd ymhlith staff y bwrdd iechyd gyda phresenoldeb o lawer o feysydd megis nyrsio, ystadau, iechyd meddwl, gwasanaethau plant, rolau gweinyddol a llawer mwy.

Mae cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn flaenoriaeth i'r bwrdd iechyd, ac felly mae gweld cymaint o staff yn awyddus i ymrwymo i'r mathau hyn o sesiynau yn gam cadarnhaol iawn at wella profiad y claf.

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg oedd prif nod y cynllun, a chyda 108 o unigolion wedi mynychu'r cyrsiau dros y flwyddyn ddiwethaf, gallwn ddweud yn hyderus bod llawer mwy o staff bellach yn defnyddio mwy o Gymraeg gyda chleifion a chydweithwyr yn y gweithle.

Angharad Evans, Ysgrifennydd Tîm

Mae Angharad wedi bod yn mynychu'r cwrs codi hyder gyda Richard ers mis Ebrill 2024. Mae hi'n dweud bod y cyrsiau'n wych ac ers mynychu'r cyrsiau'n rheolaidd mae hi'n defnyddio ei Chymraeg gyda chleifion a chydweithwyr. Mae hi'n hoffi bod y cyrsiau ar-lein a'r hyblygrwydd y mae Richard yn ei gynnig o ran ei hamserlen waith. Mae mynychu'r sesiynau grŵp yn rhithiol yn golygu ei bod hi'n cael cwrdd â chydweithwyr o bob cwr o'r bwrdd iechyd, pobl nad oedd wedi cael y cyfle i sgwrsio â nhw o'r blaen, ac maen nhw'n cael sgwrsiau anffurfiol i ymarfer gyda'i gilydd. Byddai Angharad yn argymhell y cwrs i unrhyw un sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r iaith ond sydd eisiau'r hwb i ddechrau ei siarad gydag eraill. Mae Angharad bellach yn dechrau e-byst yn y Gymraeg a bydd yn ateb y ffôn yn y Gymraeg yn hyderus, rhywbeth na fyddai hi wedi ceisio cyn ymuno â gwersi Richard.

Alan Treharne, Ymgynghorydd Obstetreg a Gymaecoeg

Cymraeg yw ail iaith Alan a chyn iddo symud i Geredigion nid oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae wedi bod yn ffodus iawn gyda'r gefnogaeth y mae wedi'i derbyn gan ei gydweithwyr yn ysbyty Bronglais ac mae'n dweud bod siarad Cymraeg yn rhan bwysig o'i ymgynghoriadau â chleifion. Mae'n teimlo'n ddigon hyderus i ddechrau siarad Cymraeg cyn Saesneg. Mae'n dweud bod hyn yn helpu ei gysylltiad â chleifion sy'n siarad Cymraeg ac yn eu gwneud i deimlo'n fwy cyfforddus, a'i fod hefyd yn deall pwysigrwydd gadael i bobl ymateb yn eu hiaith gyntaf.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod cyllid pellach wedi'i sicrhau a bydd y tiwtor yn parhau â'i waith gyda'r bwrdd iechyd am 12 mis arall eleni. Bydd y gyfres o gyrsiau Codi Hyder ar agor unwaith eto i holl staff y bwrdd iechyd yn ogystal â grwpiau targedig o staff fel Nyrsys Ysgol, gweithwyr Iaith a Lleferydd a Phorthorion; staff sydd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen 22.

Mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg wedi bod yn gweithio ar brosiect parhaus gyda'r adran Dysgu a Datblygu i ddarparu 'sesiynau blasu' newydd i staff. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cynnal sesiynau ar-lein misol awr o hyd sy'n cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth iaith fer, astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar gleifion, clipiau fideo, gwybodaeth am gyrsiau dysgu Cymraeg ac yn bennaf y cyfle i staff ymarfer terminoleg a chyfarchion defnyddiol. Mae'r sesiynau'n cael eu hysbysebu ledled y bwrdd iechyd ac yn cael eu harchebu trwy'r system ESR. Mae'r sesiynau ar gael i staff newydd a phresennol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 43 aelod o staff wedi mynychu'r sesiynau, staff o wahanol adrannau ledled y bwrdd iechyd;

radiolegwyr, llesiant dementia, ymgynghorwyr, gweithwyr iechyd meddwl, staff gweinyddol a llawer mwy.

Mae sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth iaith yn parhau i gael eu cynnig yn rhithiol ar MS Teams ac anogir rheolwyr adrannol i drefnu sesiwn ar gyfer eu staff. Hysbysebiri sesiynau ymwybyddiaeth iaith drwy Viva Engage; fodd bynnag, mae'r nifer sy'n manteisio ar y sesiwn yn gyfyngedig oherwydd pwysau ar wasanaethau. Mae rheolwyr llinell yn parhau i annog staff newydd i gysylltu â Gwasanaethau'r Gymraeg am gyngor a chefnogaeth yn eu rolau newydd. Rhoddir llinynnau gwddf a bathodynau iaith Gwaith i staff sy'n siarad Cymraeg, a rhoddir llinynnau gwddf a bathodynau dysgwyr i staff sydd wrthi'n dysgu.

Cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth iaith eraill dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys sesiynau gyda thîm y Gwasanaethau Therapi iaith a Lleferydd. Roedd y sesiynau penodol hyn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â Safonau'r iaith Gymraeg a sut i sicrhau cydymffurfiaeth. Trefnwyd sesiwn bellach ar gyfer Therapyddion iaith a Lleferydd mewn ysbytai gyda ffocws penodol ar anghenion cleifion a dewis iaith y claf.

Mae tîm Gwasanaethau'r Gymraeg hefyd wedi sicrhau lle rheolaidd ar Raglen Gynefino Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro – rhaglen gynefino ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd a gofalwyr yn y gymuned. Mae hyn eto'n cynnwys sesiwn Ymwybyddiaeth iaith a chyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd dewis iaith y claf.

Mae llawer iawn o waith yn parhau i gael ei wneud gan dîm y Gweithlu i gefnogi recriwtio gweithwyr newydd. Cynghorir rheolwyr recriwtio i asesu'r angen am sgiliau Cymraeg a'u categoreiddio yn unol â hynny. Mae canllawiau newydd a phroses glir wedi'u rhannu gyda phob rheolwr recriwtio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried drwy gydol y broses recriwtio. Mae pob swydd newydd yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, a gall ymgeiswyr ddatgan eu dewis iaith ar ffurflenni cais.

Mae Safon 107a(ch) yn parhau i fod yn faes ffocws i'n tîm Gweithlu. Mae'r Safon hon yn cyfeirio at gyfieithu pob swydd-ddisgrifiad ar gyfer hysbysebu swyddi newydd a swyddi presennol. Gwnaed rhywfaint o gynnydd i asesu swydd-ddisgrifiadau blaenoriaeth lle gellir cael yr effaith fwyaf. Mae'r bwrdd iechyd yn ymdrechu i gydymffurfio'n llawn â'r Safon hon ac mae ganddo gynllun gwaith ar waith sy'n dangos sut y bydd yn cyflawni cydymffurfiaeth lawn yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae asesu swydd-ddisgrifiadau blaenoriaeth ar gyfer cyfieithu wedi bod yn faes ffocws, gyda'r camau gweithredu canlynol yn cael eu datblygu a'u blaenoriaethu:

- Swyddi y bernir bod y Gymraeg yn hanfodol yn cael eu cyfieithu a'u hysbysebu yn y Gymraeg.
- Swyddi sydd â'r cyswllt amlaf â chleifion/defnyddwyr gwasanaeth.
- Swyddi lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol ac yn ein cymunedau.

- Swyddi sy'n tueddu i gael eu hysbysebu amlaf e.e., Nyrs Staff Band 5, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (Band 2, 3 a 4), Nyrs Gymunedol, Rheolwr Nyrsio (Band 6 a 7), Derbynnnydd a Phorthor.
- Mae 166 o swydd-ddisgrifiadau ar gael yn Llyfrgell Gydweithredol GIG Cymru (wedi'u cymeradwyo i'w rhannu ledled Cymru) ac mae 34 o swydd-ddisgrifiadau generig wedi'u cytuno ac eisoes wedi'u cyfieithu. Mae'r 34 swydd-ddisgrifiad hyn yn ddisgrifiadau swyddi craidd fel y'u nodwyd o fewn y bwrdd iechyd.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Cadw Cofnodion (Safonau 115-117)

- **Cwynion** (Safon 115)
- **Cofnod o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr** (Safon 116)
- **Cofnod o swyddi newydd neu wag a gafodd eu categorio** (Safon 117)

Cwynion a gafwyd yn ystod 2023/24

(Safon 115) *Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.*

Ymdriniwyd pob cwyn a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn unol â Gweithdrefn Gwynion y bwrdd iechyd.

Cafwyd dwy gwyn am wasanaeth Cymraeg gan y bwrdd iechyd yn ystod 2024/25, daeth un yn uniongyrchol o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd y gwyn yn ymwneud â gwybodaeth Saesneg yn unig yn cael ei harddangos yn y Fferyllfa yn Ysbyty Tywysog Philip. Ymwelodd y Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg â'r adran a siarad â rheolwr y fferyllfa.

Derbyniodd fod yr arwyddion yn Saesneg, fodd bynnag, gan fod yr arwyddion yn cynnwys gwybodaeth i staff yn unig ac yn cael eu harddangos ar y drws i mewn i ardal staff, nid oedd hi wedi sylweddoli bod angen iddynt fod yn ddwyieithog hefyd. Ymddiheurodd am y camgymeriad gan ei bod yn sylweddoli y gall y cyhoedd weld y wybodaeth. Tynnwyd y posteri i lawr ar unwaith ac maent bellach wedi'u cyfieithu.

Nododd fod yr holl arwyddion eraill – dros dro a pharhaol – o fewn yr adran fferyllfa, yn ddwyieithog. Mae'r dderbynfa'n arddangos poster iaith Gwaith, ac anogir staff i wisgo bathodynau a llinynnau gwddf iaith Gwaith. Mae ardal fewnol yr adran hefyd yn arddangos nwyddau Rho Gynnig Arni y Bwrdd Iechyd. Cadarnhaodd hefyd fod lefelau iaith y staff yn cael eu trafod ym mhob PADR, a bod rhai staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu'r iaith. Mae Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg wedi rhannu rhestr wedi'i diweddarau o'r holl gyfleoedd sydd ar gael ers hynny. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg agor ymchwiliad i gydymffurfiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda â Safonau'r Iaith Gymraeg, yn benodol safonau 9 a 10

sy'n ymwneud â galwadau ffôn. Er gwaethaf eu hymdrechion i dynnu sylw at y problemau a darparu cyfleoedd i wella, roedd tystiolaeth nad oedd unrhyw welliant clir wedi bod o ran cydymffurfiaeth â'r safonau ffôn. O ganlyniad i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi cynhyrchu cynllun gweithredu sy'n cael ei weithredu tan ddiwedd 2025. *Gweler atodiad 1*

3.5 Archwiliad o Sgiliau Iaith Gymraeg

(Safon 116) Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 96), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.

Mae sgiliau iaith staff y bwrdd iechyd yn cael eu cipio a'u cofnodi ar y system Cofnod Staff Electronig (ESR). Ar Fawrth 31, 2025, roedd 97.4% o staff wedi cofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg fel y gwelir yn y tabl isod.

Mae'r ffurflen holiadur sgiliau iaith Gymraeg yn parhau i gael ei defnyddio i gipio'r data sydd ei angen ac mae ar gael i'w lawrlwytho trwy'r fewnwyd. Trafodir data sgiliau iaith staff hefyd gyda rheolwyr mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad. Mae data iaith staff bellach hefyd yn cael ei drosglwyddo o NHS Jobs i ESR ar ôl penodi i'r swydd.

Dyma ddadansoddiad o gofnodion iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2025:

Lefel sgil iaith Gymraeg	Nifer y gweithwyr	%
0 - Dim Sgiliau	4891	40.4%
1 - Mynediad	2676	22.10%
2 - Sylfaen	1,075	8.90%
3 - Canolradd	884	7.30%
4 - Uwch	922	7.60%
5 - Hyfedredd	1,355	11.20%
Heb gofnodi ar ESR eto	312	2.60%
Cyfanswm	12,115	100%

Mae'r meysydd gwella, a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn ystod y misoedd nesaf i wella cofnodi a datblygu sgiliau iaith yn cynnwys:

1. Annog staff a rheolwyr i adolygu lefelau ESR lle mae gwelliant mewn gallu iaith wedi'i wneud.
2. Annog ymhellach y rhai ar lefel 0 i symud i lefel 1. Ein nod yw annog mwy o staff i gwblhau'r cyrsiau blasu ar-lein 10 awr.
3. Gweithredu ein strategaeth i annog y rhai ar lefel 1 i symud i lefel 2. Mae hyn yn unol â'n Polisi Sgiliau Dwyieithog; ymrwymiad i gyrraedd 50% ar lefel sylfaen mewn 10 mlynedd.
4. Adolygu targedau polisi Sgiliau Dwyieithog yng ngoleuni data Cyfrifiad 2021.

3.6 Recriwtio

(Safon 117) Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 106) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Dyma nifer y swyddi newydd a swyddi gwag dros y flwyddyn ddiwethaf:

Lefel Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd					
	Cymraeg hanfodol	Cymraeg dymunol	Angen dysgu Cymraeg	Nid oes angen y Gymraeg	Cyfanswm nifer y swyddi newydd / gwag
BIP Hywel Dda	22	2175	0	288	2485

O'r 2485 o swyddi a hysbysebwyd, cynigiwyd 2616 o swyddi ac mae gan 529 o unigolion a benodwyd i'r swyddi hyn lefelau sgiliau iaith Gymraeg 3 i 5.

Mae'r Tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol wedi ychwanegu asesiad gofynion sgiliau iaith Gymraeg at y broses recriwtio. Mae hyn yn cynorthwyo rheolwyr i benderfynu a ddylid hysbysebu swyddi fel Cymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol. Mae'r offeryn yn sicrhau bod rheolwyr yn dilyn fformiwla benodol sy'n ystyried anghenion iaith y boblogaeth a'r cymysgedd sgiliau presennol, a'r bwlch sgiliau, o fewn y tîm. Mae hyn yn caniatáu i wasanaethau recriwtio unigolion sydd â'r lefel ofynnol o allu iaith Gymraeg i sicrhau bod gwasanaeth iaith Gymraeg cynhwysfawr ar gael. Mae animeiddiad 10 Awgrym yn parhau i gael ei ddefnyddio'n helaeth i gefnogi rheolwyr recriwtio i ddeall eu cyfrifoldebau wrth gyflawni amcanion y polisi sgiliau dwyieithog. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau hyfforddi iaith Gymraeg gyda'r Tîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i wella gwybodaeth am sut maent yn eu cymhwyso i'w gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwefan Lleol, gwefan swyddi sy'n hyrwyddo rolau lle nodir bod y Gymraeg yn hanfodol, i hysbysebu swyddi Cymraeg hanfodol y bwrdd iechyd. Mae postïadau am swyddi Cymraeg hanfodol hefyd yn cael eu rhannu â grŵp penodol ar Facebook sydd ond yn hysbysebu postïadau o'r fath.

3.7 Cyfleoedd dysgu a ddarparwyd yn ystod 2024-25

Mae'r symud i fwy o ddysgu ar-lein wedi parhau i fod yn un cadarnhaol i staff y bwrdd iechyd o ran cael mynediad at ddysgu. Fel bwrdd iechyd, rydym yn ffodus i gael cynnig amrywiol gyfleoedd dysgu drwy'r fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sef Cymraeg Gwaith - cyfle i weithwyr ddysgu Cymraeg o ychydig neu ddim

gwybodaeth o gwbl, neu i ddatblygu eu sgiliau iaith presennol ymhellach. Mae Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg yn gyswllt rhwng ein staff a darparwyr cyrsiau gan wneud y broses o ddod o hyd i'r cwrs gorau i'n staff mor hawdd â phosibl.

Mae cynllun Cymraeg Gwaith yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd o gyrsiau hunan-astudio ar-lein, cyrsiau blasu, cyrsiau 'Defnyddio' Nant Gwrtheyrn ac yn fwy diweddar Academi Cymraeg Gwaith sy'n darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i gyflogwyr a fydd yn helpu cyflogwyr i gael gwell dealltwriaeth o sut i gefnogi dysgu, a sut i gynllunio a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu. Enghraifft o raglen hyfforddi ddiweddar a gynigiwyd yw 'Cadeirio a chynnal digwyddiadau dwyieithog', sydd eto ar gael i unrhyw aelod o staff ledled y bwrdd iechyd.

Cyrsiau Codi Hyder – Rhaglen Cymraeg Gwaith

Mae'r Swyddog Codi Hyder llawn amser yn cael ei gyflogi gan un o ddarparwyr Dysgu Cymraeg, sef Prifysgol Aberystwyth, am gyfnod o 12 mis. Y nod eto yn ystod 2024-2025 oedd cynnig cyrsiau codi hyder byr a gweithio gydag unigolion i newid y defnydd a wnânt o'r Gymraeg gyda chleifion. Mae'r gyfres o gyrsiau Codi Hyder wedi bod ac yn parhau i fod ar agor i holl staff y bwrdd iechyd yn ogystal â thargedu grwpiau penodol o staff fel Nyrsys Ysgol, staff Dementia, Porthorion a Phrentisiaid; staff sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion.

At bw y mae'r cwrs wedi'i anelu:

Yn ogystal â staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg presennol, eleni mae'r cyrsiau hefyd ar gael i staff sydd â bach iawn o sgiliau Cymraeg neu ddim sgiliau Cymraeg o gwbl, gan mai'r nod yw gwella hyder i ddefnyddio'r iaith beth bynnag fo lefel y Gymraeg.

Nod:

Pwrpas y sesiynau hyn yw newid arferion ieithyddol a gwella hyder siaradwyr amharod, fel eu bod yn defnyddio'r Gymraeg pan fyddent fel arfer yn defnyddio Saesneg.

Manylion y cwrs:

Wedi'i gynnal drwy ystafell ddosbarth rithiol, gan gynnwys cyfle i gael sesiynau un-i-un gyda thiwtor am gefnogaeth bellach, mae'r cwrs yn cefnogi unigolion drwy ddarparu canllawiau cyffredinol neu, os oes gan staff feysydd gwaith penodol y maent yn dymuno canolbwyntio arnynt e.e. ymarfer sgript ffôn, neu sut i ysgrifennu e-bost ffurfiol. Mae cwrs nodweddiadol yn cynnwys dwy awr o ddysgu'r wythnos, a gall yr unigolyn barhau â'r sesiynau gyda'r tiwtor cyhyd ag sydd ei angen neu nes eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith.

Mynychodd llawer o staff o wahanol adrannau'r cyrsiau dros y flwyddyn ddiwethaf, yn amrywio o Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Iechyd Meddwl, Ymgynghorwyr, Nyrsys Staff a llawer mwy.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd (31 Mawrth 2025) roedd 108 aelod o staff wedi cwblhau'r cyrsiau. Mae hwn yn gyflawniad gwych gan mai'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn oedd cyrraedd 100 aelod o staff. Mae pwysau gwaith presennol yn parhau i fod yn gyfyngiad o ran cyfraddau presenoldeb a gadael y cwrs, fodd bynnag, mae hyblygrwydd y cyrsiau a'r cyfle i gael sesiynau 1:1 yn helpu, ac mae gan staff bob amser y cyfle i ailymuno yn ddiweddarach neu fynychu ar sail 1:1 gyda'r tiwtor.

Dadansoddiad pellach o'r cyrsiau Codi Hyder

Cynhaliwyd chwe chwrs dwy awr o hyd dros 12 wythnos sy'n cyfateb i 24 awr o gyswllt ar gyfer pob cwrs. Mae'r sesiynau un-i-un wedi bod yn hynod boblogaidd gyda'r staff gyda thua 478 awr o gyswllt wedi'u nodi gan y tiwtor. Mae'r amser a dreulir gyda phob unigolyn yn amrywio, gyda rhai'n treulio hyd at 12 awr un-i-un gyda'r tiwtor, ac eraill dim ond angen ychydig oriau i godi hyder.

Mis	Staff	Nifer o unigolion
Mehefin 2024	Staff Gofal Sylfaenol	14
Medi 2024	Prentisiaid	18
Medi 2024	Nyrsys Bronglais	28
Hydref 2024	Nyrsys Glangwili	32
Hydref 2024	Prentisiaid	3
Tachwedd 2024	Staff Gofal Sylfaenol	12
Rhagfyr 2024	Ysbytai Cymunedol Sir Benfro	6

Yn dilyn llwyddiant y cynllun yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae cynllun tebyg yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd gyda byrddau iechyd eraill; cyfle i rannu profiadau a gweithio ar y cyd. Mae'r gwaith yn parhau gyda chydlynedd y cynllun Cymraeg Gwaith, ac mae cyfres o glipiau fideo hyrwyddo wedi'u lansio'n ddiweddar fel rhan o ymgyrch hyrwyddo er mwyn hyrwyddo llwyddiannau'r cynllun Codi Hyder ymhellach.

Cyfleoedd arall i ddysgu'r Gymraeg

Mae Tîm Gwasanaethau'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo pob cyfle dysgu'r Gymraeg i staff, yn ogystal â'u cefnogi i ddewis y cwrs mwyaf priodol ar gyfer eu lefel gallu. Y llynedd, profodd y cyllid i gynnig mwy o gyrsiau dwys a byr ar lefel dechreuwr i staff y bwrdd iechyd yn boblogaidd, a manteisiodd nifer arno.

Ym mis Medi 2024, gan weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'u darparwr Prifysgol Aberystwyth, roeddem yn gallu cynnig cwrs Croeso i'r Gymraeg i'n staff a oedd yn ddechreuwr llwyr i ddysgu'r iaith. Mae'r cwrs yn sesiwn untro ar-lein am 1.5 awr. Mae'r tiwtor, a gyflenwyd gan Brifysgol Aberystwyth, yn defnyddio'r sesiwn i roi blas o sut beth yw dysgu Cymraeg drwy edrych ar batrymau ieithyddol

geiriau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r sesiwn hefyd yn rhoi trosolwg o ba adnoddau sydd ar gael i staff os ydynt yn penderfynu parhau i ddysgu'r Gymraeg.

Cynigiwyd pedair sesiwn i staff drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Ganolfan wedi cadarnhau y bydd y cyrsiau'n rhedeg tan 2025-26 gan gynnig chwe sesiwn arall drwy gydol y flwyddyn i staff.

Yn dilyn llwyddiant nifer y cyfranogwyr a fynychodd y cwrs Croeso i'r Gymraeg, enillodd Prifysgol Aberystwyth a'r bwrdd iechyd dendr i dreialu cwrs Croeso 10 awr ym mis Mawrth 2025. Cynigir y cwrs hwn i bawb a fynychodd y cwrs Croeso i'r Gymraeg a gofynnir i staff roi 1 awr yr wythnos o'u hamser am 10 wythnos i'w helpu i ddysgu Cymraeg sgysiol a fydd yn eu helpu i ryngweithio â chleifion. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ymadroddion gofal iechyd. Rydym yn falch o gadarnhau y bydd tair bloc arall o gyrsiau 10 awr yn cael eu cynnig i staff dros 2025-26.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y cyfranogwyr a gofrestrwyd ar y gwahanol gyrsiau a gynigiwyd yn y bwrdd iechyd yn ystod 2024-25.

Cwrs	Lefel	Lleoliad	Nifer a gofrestrwyd
Cwrs Codi Hyder	Lefel 3 ac uwch	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein a sesiynau 1:1 rithiol ar-lein	108
Croeso i Gymraeg Gwaith – cwrs 10 awr ar-lein	Mynediad	Hunan astudio ar-lein	49
Cwrs dwys byr 6 wythnos	Mynediad - Lefel 0	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	15
6-week short intensive course	Mynediad - Lefel 0	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	13
6-week short intensive course	Mynediad - Lefel 0	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	22
Cwrs Croeso	Mynediad - Lefel 0/1	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	36
Cwrs Croeso	Mynediad - Lefel 0/1	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	32
Cwrs Croeso	Mynediad - Lefel 0/1	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	27
Cwrs Croeso	Mynediad - Lefel 0/1	Ystafell ddsbarth rithiol ar-lein	16
Cwrs hunan astudio ar-lein	Mynediad	Ar-lein	5

Cwrs 'Defnyddio' Nantgwyrttheyrn	Uwch	Wyneb yn wyneb	2
Cwrs 'Defnyddio' Nantgwyrttheyrn	Canolradd	Wyneb yn wyneb	3

4. Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth am Wasanaethau'r Gymraeg y bwrdd iechyd, cysylltwch â ni:

Gwasanaethau'r Gymraeg | Welsh Language Services
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Hywel Dda University Health Board
Hafan Derwen
Parc Dewi Sant
Heol Jobswell | Jobswell Road
Caerfyrddin | Carmarthen
SA31 3BB

welshtranslation.services@wales.nhs.uk

Atodiad 1:

Cynllun Gweithredu

Hysbysu Galwyr am Wasanaeth Cymraeg (Safon 9):

Camau a gymerwyd	Cynnydd	Dyddiad cyflawni	Uwch Berchennog Cyfrifol
System Awtomataidd: Gweithredu system ffôn awtomataidd sy'n hysbysu galwyr am argaeledd gwasanaeth Cymraeg ar ddechrau'r alwad.	Bydd y sianeli galw dynodedig yn cael eu gweithredu fel bod y galwr yn cael ei gyfarch â neges ddwyieithog ac yna'n gallu dewis opsiwn 1 ar gyfer Cymraeg. Bydd hwn wedyn yn cael ei gyfeirio at weithredwr sy'n siarad Cymraeg.	Dyddiad cychwyn: Ionawr 2025 Dyddiad cwblhau: Gorffennaf 2025	Cyfarwyddwr Digidol
Hyfforddiant Staff: Sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi i hysbysu galwyr am y gwasanaeth Cymraeg ac i ddechrau sgysiau yn Gymraeg.	Bydd y llinell Gymraeg ddynodedig i'r Switsfwrdd yn galluogi'r gweithredwr i ddelio â'r alwad yn Gymraeg, gan y bydd y gwasanaeth awtomataidd wedi nodi mai dyma ddewis y galwr. Bydd yr aelod o staff sy'n ateb yr alwad yn gallu sefydlu natur yr alwad, cynnal sgwrs gychwynnol a delio ag unrhyw ymholiad nad yw'n ymwneud â "phwnc penodol" yn Gymraeg.	Dyddiad cychwyn: Ionawr 2025 Dyddiad cwblhau: Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Digidol / Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Canllawiau a Phrotocolau: Diweddarau pob dogfen ganllaw i amlinellu'n glir y camau y mae'n rhaid i staff eu cymryd i gydymffurfio â safon 9	Yr holl sgrïptiau, polisïau a gweithdrefnau i'w hadolygu i sicrhau bod y Switsfwrdd yn darparu gwasanaeth dwyieithog cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Gwneir hyn ar y cyd â thîm Gwasanaethau'r Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.	Dyddiad cychwyn: Ionawr 2025 Dyddiad cwblhau: Mawrth 2025	Cyfarwyddwr Digidol

Delio â Galwadau yn Gymraeg (Safon 10):

Camau a gymerwyd	Cynnydd	Dyddiad cyflawni	Uwch Berchennog Cyfrifol
<p>Cyfarch Cychwynnol: Sicrhau bod pob galwad yn cael ei chyfarch yn Gymraeg a bod staff yn gallu delio â sgysiau cychwynnol yn Gymraeg.</p>	<p>Adnewyddu sgrïptiau gweithredwyr i gynnwys neges ddwyieithog gan y Bwrdd lechyd.</p> <p>Sesiynau hyfforddi a magu hyder i weithredwyr switsfwrdd.</p> <p>Yr holl staff perthnasol i fod wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg gorfodol ar ESR.</p>	<p>Dyddiad cychwyn: Ionawr 2025</p> <p>Dyddiad cwblhau: Mawrth 2025</p>	<p>Cyfarwyddwr Digidol</p>
<p>Protocolau Trosglwyddo: Datblygu protocolau ar gyfer trosglwyddo galwadau i staff sy'n siarad Cymraeg pan fo angen.</p>	<p>Yn ystod y sgwrs gychwynnol, os bydd y galwr yn gofyn am gael siarad ag aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu os bydd y sawl sy'n delio â'r alwad yn nodi y byddai'n well gwasanaethu'r galwr yn Gymraeg, caiff yr alwad ei throsglwyddo. Bydd y sawl sy'n delio â'r alwad yn hysbysu'r galwr y bydd yn cael ei drosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os yw ar gael) ac yn rhoi esboniad byr o'r broses drosglwyddo. Bydd rhestr o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredwyr a bydd yn cael ei chynnal a'i diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>Dyddiad cychwyn: Tachwedd 2024</p> <p>Dyddiad cwblhau: Rhagfyr 2024</p>	<p>Cyfarwyddwr Digidol</p>
<p>Hyfforddiant iaith Gymraeg: Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg parhaus i staff i wella eu gallu i ymdrin â galwadau yn Gymraeg.</p>	<p>Gweithio gyda'r tîm Gwasanaethau'r Gymraeg o fewn y Bwrdd lechyd i adeiladu ar sgiliau Cymraeg presennol staff a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ateb galwadau. Byddwn hefyd yn cynnal hyfforddiant gyda</p>	<p>Dyddiad cychwyn: Tachwedd 2024</p> <p>Parhaus: Sesiynau hyfforddiant parhaus</p>	<p>Cyfarwyddwr Digidol / Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu</p>

	staff sydd â gwybodaeth gyfyngedig o'r Gymraeg i'w uwchsgilio i ymdrin â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg.	trwy gydol 2025	
--	---	-----------------	--

Er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus y cynllun gweithredu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 9 a 10, byddwn yn sefydlu fframwaith monitro a gwerthuso cadarn. Dyma gydrannau allweddol ein strategaeth monitro cynnydd:

Fframwaith Monitro a Gwerthuso

Adolygiadau Cynnydd Rheolaidd:

Cyfarfodydd Misol: Byddwn yn cynnal cyfarfodydd adolygu cynnydd misol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r tîm Digidol, a thîm Gwasanaethau'r Gymraeg a Chyfathrebu. Bydd y cyfarfodydd hyn yn asesu cynnydd pob eitem weithredu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw heriau neu oedi.

Adroddiadau Chwarterol: Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol manwl yn cael eu paratoi a'u rhannu ag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys diweddariadau ar weithrediad y cynllun gweithredu, unrhyw broblemau a wynebwyd a'r camau unioni a gymerwyd.

Metrigau Perfformiad:

Metrigau Cydymffurfiaeth: Byddwn yn sefydlu metrigau perfformiad penodol i fesur cydymffurfiaeth â safonau 9 a 10 (drafft ynghlwm yn Atodiad 1). Bydd y metrigau hyn yn cynnwys canran y galwadau a hysbysir am y gwasanaeth Cymraeg, canran y galwadau yr ymdrinnir â nhw yn Gymraeg, a nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi mewn sgiliau Cymraeg.

Adborth Cleifion: Byddwn yn casglu adborth gan alwyr ynglŷn â'u profiad gyda'r gwasanaeth Cymraeg. Defnyddir yr adborth hwn i nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ein cleifion Cymraeg eu hiaith.

Archwiliadau:

Archwiliadau **ddwywaith y flwyddyn:** Cynhelir archwiliadau mewnol ddwywaith y flwyddyn i asesu cydymffurfiaeth â'r cynllun gweithredu a Safonau'r Gymraeg. Bydd

yr archwiliadau hyn yn cynnwys adolygu recordiadau galwadau, cofnodion hyfforddi staff ac adborth cleifion.

- a. **Adroddiadau Archwilio:** Bydd canfyddiadau'r archwiliadau mewnol yn cael eu dogfennu mewn adroddiadau archwilio, a fydd yn cael eu rhannu gyda'r uwch reolwyr a Chomisiynydd y Gymraeg.

2. Gwelliant Parhaus:

- a. **Dolen Adborth:** Byddwn yn sefydlu dolen adborth i wella ein gwasanaeth Cymraeg yn barhaus. Bydd hyn yn cynnwys adolygu adborth cleifion, canfyddiadau archwilio a metrigau perfformiad yn rheolaidd i nodi meysydd i'w gwella a rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.
- b. **Hyfforddiant Parhaus:** Byddwn yn darparu hyfforddiant Cymraeg parhaus i staff i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r hyder i ymdrin â galwadau yn Gymraeg yn effeithiol.

Drwy roi'r fframwaith monitro a gwerthuso hwn ar waith, byddwn yn sicrhau bod y cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith yn effeithiol, a bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg 9 a 10.